GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

# Cynllun Gwella Blynyddol

2016 - 2017

VOBIS PRODESSE NECESSARIUM TEMPORE

www.mawwfire.gov.uk

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cipolwg ar ein Hamcanion Gwella | | 3 |
| Rhagair | | 5 |
| Cyflwyniad | | 6 |
| Y Pwysau a Wynebwn | | 7 |
| Cyni a Thwf | | 7 |
| Ein Cyllideb | | 7 |
| Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau | | 8 |
| Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol | | 9 |
| Ein Perfformiad | | 11 |
| Targedau Perfformiad ar gyfer 2016/17 | | 12 |
| Targedau Perfformiad Lleol ar gyfer 2016/17 | | 13 |
| Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2016/17 | | 14 |
| Matrics – Blaenoriaethau ac Amcanion | | 15 |
| Amcan 1 | Darparu ymyrraeth diogelwch yn y cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru. | 16 |
| Amcan 2 | Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru. | 17 |
| Amcan 3 | Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. | 18 |
| Amcan 4 | Cynnal adolygiad trylwyr a chadarn ar sail tystiolaeth o'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau; yn cynnwys cyfansoddiad ein gorsafoedd tân; cerbydau, offer; a'r modelau staffio cysylltiedig. | 19 |
| Amcan 5 | Darparu Ystafell Reoli ar y Cyd ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn cyfleuster a rennir yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogw. | 20 |
| Amcan 6 | Cynnal asesiad manwl a strategol o'r ardal a wasanaethwn gan ddadansoddi cynlluniau datblygu, meysydd twf, ystadegau'r farchnad lafur, yr economi a demograffeg. | 21 |
| Amcan 7 | Cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). | 22 |
| Amcan 8 | Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes. | 23 |
| Amcan 9 | Buddsoddi yn ein pobl. | 24 |
| Amcan 10 | Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau. | 25 |
| Amcan 11 | Digido - Defnyddio technoleg i gysylltu, cydweithio, arloesi a grymuso. | 26 |
| Amcan 12 | Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd. | 27 |
| Geirfa | | 28 |

# Cipolwg ar ein Hamcanion Gwella

## Ein Gwelliannau ar gyfer 2016 / 2017

Rydym wedi nodi a datblygu 12 amcan gwella y byddwn yn mynd i'r afael â hwy yn 2016/17.

Credwn y bydd yr amcanion hyn yn gwella diogelwch, ac yn darparu gwasanaethau ardderchog sy'n ymateb i risgiau ac anghenion ein cymunedau.

Mae ein hamcanion gwella fel a ganlyn:-


1. Darparu ymyrraeth diogelwch cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.
2. Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru.
3. Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru.
4. Cynnal adolygiad trylwyr a chadarn ar sail tystiolaeth o'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau; yn cynnwys cyfansoddiad ein gorsafoedd tân; cerbydau; offer; a'r modelau staffio cysylltiedig.
5. Darparu Ystafell Reoli ar y Cyd ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn cyfleuster a rennir yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
6. Cynnal adolygiad manwl a strategol o'r ardal a wasanaethwn gan ddadansoddi cynlluniau datblygu, meysydd twf, ystadegau'r farchnad lafur, yr economi a demograffeg.
7. Cyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
8. Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes.
9. Buddsoddi yn ein pobl.
10. Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau.
11. Digido - Defnyddio technoleg i gysylltu, cydweithio, arloesi a grymuso.
12. Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd.

Mae’r tabl isod yn dangos canran % y gostyngiadau yn nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau dros y 10 mlynedd diwethaf sy’n rhoi darlun clir o’n llwyddiant.

| Dangosydd Perfformiad | Cyfartaledd 2006/7 I 2009/10 | Cyfartaledd 2010/11 I 2014/15 | % y Gostyngiad a Gyflawnwyd 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Holl Danau | 6184 | 4156 | -32.8% |
| Marwolaethau ac Anafiadau Oherwydd Tanau | 115 | 70 | -39.2% |
| Galwadau Tân Diangen | 5232 | 4626 | -11.5% |
| Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr Ymatebwyd Iddynt | 1349 | 1065 | -21% |
| Prif Danau | 2286 | 1560 | -31.7% |
| Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 646 | 564 | -12.7% |
| Tanau Bwriadol | 3779 | 2109 | -44.2% |
| Tanau mewn Eiddo Annomestig | 377 | 260 | -17.3% |
| Salwch | 7.6 | 8.7 | 14.5% |

## Mae ein poblogaeth breswyl tua 900,000

| | Poblogaeth | Arwynebedd (cilomedr sgwâr) | Dwysedd poblogaeth |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 180,000 | 2400 | 78 |
| Ceredigion | 74,000 | 1750 | 42 |
| Castell-nedd a Phort Talbot | 156,000 | 580 | 269 |
| Sir Benfro | 120,000 | 1550 | 77 |
| Powys | 130,000 | 5100 | 26 |
| Abertawe | 230,000 | 370 | 624 |



**Mae'r boblogaeth yn chwyddo’n sylweddol i dros 1.5 miliwn o ganlyniad i dwristiaeth**

# Rhagair



Fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, pleser yw cyflwyno ein Cynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Fel Awdurdod Tân ac Achub, rydym yn gyhoeddus atebol am eich Gwasanaeth Tân ac Achub, gan bennu ei gyllideb a'i flaenoriaethau. Dros y pum mlynedd ddiwethaf rydym wedi wynebu heriau ariannol nas gwelwyd erioed o'r blaen a gwyddom y bydd trafodaethau ynghylch y gyllideb yn parhau i chwarae rhan ganolog yn y penderfyniadau a wnawn fel Awdurdod dros y blynyddoedd i ddod. Mae angen i ni archwilio ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau, ynghyd â sicrhau bod diogelwch a llesiant ein cymunedau wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am ddarparu gwerth am arian, gan wario arian trethdalwyr yn ddoeth ac ar y pethau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Fel Awdurdod, rydym wedi amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn ein Cynllun Strategol 2016-21 ac yn ei dro, mae'r Cynllun Gwella Blynyddol hwn yn gosod ein 12 amcan strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf (2016/17).

Ein blaenoriaeth yw gweithio'n agos bob amser gydag uwch reolwyr a staff i sicrhau bod yr amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac o fewn y gyllideb, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae gwella diogelwch ein cymunedau a'n staff unwaith eto wrth wraidd Cynllun Gwella Blynyddol eleni. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyfeirio ein hymdrechion at ddatblygu a darparu ymyrraeth diogelwch yn y cartref newydd i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau. Rydym hefyd yn ymrwymedig i fuddsoddi yn ein pobl a gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau, gan sicrhau bod ein staff yn y sefyllfa orau posibl i ddelio ag argyfyngau er mwyn diogelu eu hunain a'r cymunedau a wasanaethant yn well. Wrth i ni barhau i ymateb i'r heriau ariannol o'n blaenau, byddwn hefyd yn ceisio datblygu atebion arloesol i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cost-effeithiol o safon uchel.

Dyma ein Cynllun Gwella Blynyddol Drafft ar gyfer 2016/17 a chroesawn eich safbwyntiau ar yr amcanion a nodir yn y cynllun. Ceir manylion ar sut y gallwch rannu eich safbwyntiau yn y ddogfen hon ac fe'ch anogaf i roi gwybod i ni beth yw eich barn ar ein hymrwymiadau i chi ar gyfer 2016/17.




Y Cynghorydd Wynne Evans

Cadeirydd, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Cynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2016/17 sy'n nodi ein hamcanion strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Oeddech chi'n gwybod fel Gwasanaeth:-




Ein gweledigaeth yw Gwasanaeth sy'n anelu at fod gyda'r gorau yn y byd ar gyfer darparu Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol. Rydym eisoes yn dda iawn at yr hyn a wnawn. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi ymateb i 3,075 o danau yn y cartref, dros 5,500 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd ac wedi cynnal 107,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Mae ein diffoddwyr tân ar alwad hefyd wedi ymateb i 7,536 o alwadau meddygol brys mewn cerbydau cyd-ymatebwyr, sef cynnydd o 40% ers 2006/07.


Rydym wedi cyflawni hyn oll yn ogystal â gwireddu arbedion o £7.5 miliwn, sef tua 17% o'n cyllideb gyffredinol (ers 2005), heb effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Fodd bynnag, ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yr hinsawdd ariannol rydym yn gweithredu o'i mewn yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar lefel y gwasanaeth a ddarparwn ar hyn o bryd ac yn ymestyn ein hadnoddau hyd yn oed ymhellach.

Ein hymrwymiad i chi yw addasu i'r heriau hyn mewn ffordd gadarnhaol. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gwneud gwelliannau ym meysydd technoleg newydd, gan ddefnyddio atebion arloesol i wella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol gan gysylltu, cydweithio a galluogi ein staff a'n cymunedau. Byddwn hefyd yn ceisio lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru gan weithio ar y cyd â'n partneriaid i ddarparu strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, byddaf yn gweithio'n agos â Thîm Arwain Gweithredol ac Awdurdod Tân ac Achub y Gwasanaeth er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Rwy'n cydnabod hefyd bod gwrando ar eich safbwyntiau yn hanfodol er mwyn i ni barhau i ddarparu Gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel. Dyma eich Gwasanaeth Tân ac Achub chi ac rydym am wybod beth yw eich barn chi am y gwasanaethau a ddarparwn a sut y credwch y gallwn barhau i wneud gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at gael eich safbwyntiau ar yr amcanion strategol a nodir o fewn y Cynllun Gwella Blynyddol hwn.

Diolch yn fawr



Chris Davies Prif Swyddog Tân

# Y Pwysau a Wynebwn

## Cyni a Thwf

Bydd angen cyflawni ein gweledigaeth yn erbyn cefndir o bwysau ariannol sylweddol a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus.

Bydd llai o arian yn golygu y bydd yn anoddach darparu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Mae sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eraill ledled canolbarth a gorllewin Cymru yn wynebu'r pwysau hyn hefyd ac rydym yn ymwybodol iawn i beidio â gwthio costau a phwysau ar sefydliadau neu ddarparwyr eraill yn anfwriadol.

## Ein Cyllideb

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu'r ardal ddaearyddol fwyaf yng Nghymru a Lloegr - 12000 cilomedr sgwâr, sy'n cynnwys bron i hanner yr arfordir yng Nghymru - tua 650 cilomedr o arfordir. Bydd yr ardal wledig wasgaredig yn effeithio ar gostau rhedeg gwasanaeth effeithlon ac effeithiol a bydd hyn, ochr yn ochr â maint yr arfordir yn golygu y bydd y gost y pen o'r boblogaeth yn fwy na gwasanaethau eraill sy'n llai o faint ac yn fewndirol.

Er gwaethaf yr ardal ddaearyddol heriol, mae gennym y 4ydd 'cost fesul gorsaf' isaf a'r 2il 'gost fesul cilomedr sgwâr' isaf yng Nghymru a Lloegr. Dros y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi arbed £7.5 miliwn, sy'n cyfateb i 17% o ostyngiad yn ein cyllideb gyffredinol. Gwnaed yr arbedion hyn drwy newid y ffordd y caiff rhai o'n gorsafoedd eu criwio, gan wneud arbedion adran ganolog a mireinio rhai o'n prosesau busnes. Hyd yma rydym wedi llwyddo i wneud arbedion heb effeithio'n negyddol ar y gwasanaethau a ddarparwn.

Ers 2005 mae cyfanswm o 116 o swyddi yn yr orsaf (23%) wedi cael eu dileu o'r sefydliad (heb ddiswyddiadau). Cyflawnwyd hyn drwy wneud newidiadau i'r systemau criwio mewn gorsafoedd tân amrywiol gyda'r arbedion effeithlonrwydd yn cyfateb i £3,330,000. Cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd pellach drwy ostwng nifer y staff canolog (£1,571,000) a newidiadau i brosesau busnes (£2,756,000).

Rydym wedi cynnal nifer o ymarferion i geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn sgil trawsnewid gwasanaethau dros y deng mlynedd diwethaf. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o bob elfen o'r gyllideb gan edrych ar arbedion effeithlonrwydd, gyda chyfranogiad llawn Aelodau'r Awdurdod Tân yn 2008. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol a chadarn o strwythurau a pholisïau pob adran, drwy Raglen Adolygu'r Gwasanaeth (SRP). Arweiniodd nifer o adolygiadau gweithredol technegol at weithredoedd mwy effeithlon.

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn costio £4 y person y mis, neu dim ond 13c y dydd. Credwn fod hyn yn werth arbennig am arian, ac mae arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar yn dangos bod y cyhoedd o'r un farn hefyd. Fodd bynnag, nid oes modd osgoi'r ffaith ein bod yn wynebu dyfodol ariannol sydd hyd yn oed yn fwy heriol. Gwyddom fel gwasanaeth sector cyhoeddus y byddwn yn gorfod chwarae ein rhan drwy wneud arbedion effeithlonrwydd pellach.

Gwyddom hefyd y bydd hyn yn golygu gwneud rhai penderfyniadau anodd. Gan ystyried hyn rydym yn cynnig cynnal Adolygiad sylfaenol o'r Gwasanaeth, i gynnwys adolygiad o risgiau, asesiad strategol arloesol, ac ymarfer cymharu costau, fel ein bod yn deall yn llawn anghenion y gwasanaeth a'r goblygiadau o ran adnoddau. Bwriadwn gwblhau'r adolygiad hwn yn ystod y 12 mis nesaf, er mwyn llywio'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2017/18 ymlaen a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

# Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau

**GWELEDIGAETH**

Bod gyda'r gorau yn y byd am ddarparu Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol

**CENHADAETH**

Ymgysylltu â phobl, cysylltu â hwy, eu datblygu a'u hysbrydoli i ddarparu Gwasanaeth gwych.

**GWERTHOEDD**

- Gwneud y peth cywir
- Trin pobl â pharch
- Perfformio gyda rhagoriaeth

**BLAENORIAETHAU**

- Cydweithio
- Arloesedd
- Gwella'r Modd y Darperir ein Gwasanaethau
- Grymuso ein Staff
- Gwella ein Hasedau a'n defnydd o Adnoddau
- Cynaliadwyedd
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol...**

Gweithio tuag at 12 o Amcanion Corfforaethol Drafft

# Ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2016-21 yn sicrhau y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymunedau.

Mae ein saith blaenoriaeth, fel yr amlinellir isod, yn nodi ein hymrwymiad i ddarparu yn erbyn targedau heriol o fewn amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol sy'n newid yn barhaus.

## Cydweithio

Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffordd rydym yn gweithio gydag eraill. Cydnabuwn bwysigrwydd cydweithio ystyrlon ac effeithiol a'r angen i ddatblygu a chynnal mentrau cydweithredol gyda phartneriaid allweddol. Bydd cydweithio hefyd yn ategu'r broses o ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer ein cymunedau ac yn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd well sy'n fwy costeffeithiol ac effeithlon. Dros y pum mlynedd nesaf ein nod yw cael ein cydnabod fel partner galluogi allweddol o fewn y sector cyhoeddus a phreifat ehangach.

## Arloesedd

Mae arloesedd yn hanfodol er mwyn ein galluogi i ddatblygu a chynnal Gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cymunedau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd atebion arloesol yn holl bwysig wrth ddarparu seilwaith a fydd yn ein cynorthwyo i ddatblygu a gwella ein sefydliad. Bydd yr heriau ariannol sylweddol sy'n ein hwynebu yn gofyn i ni fod yn arloesol a mabwysiadu ffyrdd newydd o feddwl er mwyn i ni allu bod ar y blaen o ran ein hymateb brys. Rydym yn ymrwymedig i nodi ffyrdd arloesol o weithio er mwyn sicrhau bod ein cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid yn cael y gwasanaeth gorau posibl o'u gwasanaeth tân ac achub.

## Gwella'r Modd y Darperir Gwasanaethau

Byddwn yn parhau i addasu ein gwasanaethau er mwyn ymateb i'r heriau ariannol parhaus a wynebwn. Byddwn yn gweithio i nodi ac ymateb i ofynion newydd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu Gwasanaeth sydd bob amser ar y blaen o ran datblygu'r modd y darperir gwasanaethau. Byddwn yn parhau i amrywio'r ystod o weithgareddau a mentrau a gyflawnwn er mwyn adlewyrchu risgiau ein cymunedau, ein tirweddau gwledig a threfol a'n hadnoddau naturiol.

## Grymuso ein Staff

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd diwylliant ein Gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau y caiff ein staff eu hyfforddi i'r safonau uchaf posib a'u bod yn gallu cynnal eu cymhwysedd drwy ddysgu proffesiynol parhaus. Byddwn yn darparu llwybrau clir ar gyfer datblygu gyrfa a'r amgylchedd gwaith gorau posibl ar gyfer eu llesiant proffesiynol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod strwythur y sefydliad yn adlewyrchu anghenion ein gwasanaeth a'n cymunedau drwy roi arferion gwaith hyblyg ar waith sy'n ategu ffordd o fyw iachus a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae cyfathrebu yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau bod ein staff, rhanddeiliaid, cymunedau a phartneriaid yn ymwybodol o'r gwaith a wnawn, yr heriau a wynebwn a'r llwyddiant a gyflawnwn. Credwn y gallwn drosglwyddo ein negeseuon allweddol yn effeithiol drwy sicrhau bod ffocws parhaus ar addysg, ymgysylltu a chyfathrebu.

## Gwneud gwell defnydd o'n Hasedau a'n Hadnoddau

Cydnabuwn mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr, fodd bynnag, er mwyn i'n staff fod yn effeithiol mae angen iddynt gael y cyfleusterau a'r adnoddau gorau sydd ar gael iddynt. Credwn fod yn rhaid i'n hasedau ffisegol fod yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn ategu ac ymateb i'r broses o ddarparu ein gwasanaethau ar draws canolbarth a gorllewin Cymru. Byddwn yn defnyddio ein hasedau ffisegol i weithio gyda phartneriaid lle bynnag y bo'n ymarferol er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

## Cynaliadwyedd

Gwyddom fod ein gweithrediadau yn effeithio ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym yn ymrwymedig i leihau unrhyw effeithiau niweidiol lle bynnag y bydd ein cyllid, gweithredoedd a'n hadnoddau yn caniatáu hynny. Rydym yn ymrwymedig i groesawu ynni adnewyddadwy i ategu ein hagenda cynaliadwyedd ac amgylcheddol. Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol yn nodi'r prif egwyddorion, cynigion a'r camau gofynnol er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau a gweithredoedd y Gwasanaeth.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n staff, rhanddeiliaid a phartneriaid drwy fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at gyfathrebu drwy fod yn agored, yn onest, yn hygyrch ac yn atebol gyda phob cynulleidfa a dangos y lefelau uchaf posibl o uniondeb proffesiynol ar bob adeg. Byddwn yn datblygu gweithlu mwy effeithiol sy'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gynnwys, ei hysbysu a'i gymell drwy ddatblygu sianeli cyfathrebu mewnol sy'n trosglwyddo ein Cynllun Strategol a'n Cynlluniau Gwella Blynyddol yn effeithiol.

# Ein Perfformiad

Bob blwyddyn rydym yn gosod targedau ar gyfer gwelliant yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (DPA). Mae'r DPA hyn yn adlewyrchu ein hamcanion ac yn mesur ein llwyddiant. Llywodraeth Cymru sy'n cytuno arnynt a gellir eu cymharu â'r Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

Mae'r DPA a ddefnyddiwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wneud ein cymunedau yn fwy diogel sef:

Dangosyddion Statudol Llywodraeth Cymru

- Tanau (cyfanswm)
- Marwolaethau ac Anafiadau o ganlyniad i Dân
- Galwadau Ffug
- Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd

Dangosyddion Sector y Gwasanaeth Tân

- Prif Danau
- Tanau Damweiniol mewn Cartrefi
- Tanau Bwriadol
- Tanau mewn eiddo annomestig
- Dyddiau a gollwyd oherwydd Salwch

Rydym hefyd yn defnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad lleol sy'n ein galluogi i fesur gweithgareddau busnes arferol sy'n bwysig i ni megis:

- Nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref a wnaed
- Canran y Staff sy'n Gymwys yn Weithredol
- Argaeledd Dyfais ar Alwad
- Nifer yr Ymarferion Gweithredol

Dros y degawd diwethaf, drwy Gynllunio Gwelliannau a Lleihau Risgiau, mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiadau sylweddol yn nifer y digwyddiadau rydym yn cael ein galw i'w mynychu; ynghyd â gwell canlyniadau i'r rhai yr effeithir arnynt a'r cymunedau lle maent yn digwydd.

| Dangosydd Perfformiad | Cyfartaledd 2006/7 i 2009/10 | Cyfartaledd 2010/11 i 2014/15 | % y Gostyngiad a Gyflawnwyd 2014/15 | Cyfartaledd 2015/16 i Darged 2020/21 | Gostyngiad Targed 2020/21 (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Holl Danau** FRS/RRC/S/001 (i) | 6184 | 4156 | -32.8% | 3325 | -20% |
| **Marwolaethau ac Anafiadau Oherwydd Tanau** FRS/RRC/S/002 (i) | 115 | 70 | -39.2% | 62 | -10% |
| **Galwadau Tân Diangen** FRS/RRC/S/001 (ii) | 5232 | 4626 | -11.5% | 4163 | -10% |
| **Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr Ymatebwyd Iddynt** FRS/RRC/S/001 (iii) | 1349 | 1065 | -21% | 958 | -10% |
| **Prif Danau** Dangosydd Sector | 2286 | 1560 | -31.7% | 1248 | -20% |
| **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi** Dangosydd Sector | 646 | 564 | -12.7% | 479 | -15% |
| **Tanau Bwriadol** Dangosydd Sector | 3779 | 2109 | -44.2% | 1476 | -30% |
| **Tanau mewn Eiddo Annomestig** Dangosydd Sector | 377 | 260 | -17.3% | 221 | -15% |
| **Salwch** Sifftiau a gollwyd fesul Cyfwerth ag Amser Llawn | 7.6 | 8.7 | 14.5% | 6.5 | -25% |

Mae'r tabl yn dangos canran y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau dros y 10 mlynedd diwethaf sy'n rhoi darlun clir o'n llwyddiant.

Cydnabyddwn nad yw ein cyfraddau salwch ar lefel ddymunol o hyd ond o ganlyniad i hyn rydym wedi gosod targedau heriol ar gyfer y dangosydd hwn dros y 5 mlynedd nesaf.

## Targedau Perfformiad ar gyfer 2016/17

Rydym wedi gosod targedau heriol ond realistig ar gyfer 2016/17 ymlaen drwy lunio cyfrifiad sy'n caniatáu amrywiadau mewn gweithgarwch o flwyddyn i flwyddyn.

Credwn mai'r ffordd orau o fesur perfformiad yw ystyried tueddiadau tymor hwy ac nid dim ond drwy berfformiad blynyddol. Fel y cyfryw, gwnaethom osod targed gostyngiad yn seiliedig ar gyfartaledd dros gyfnod o bum mlynedd sy'n caniatáu 'pigynnau' mewn gweithgarwch, a allai gael ei achosi gan y canlynol:

- Gwanwyn a haf eithriadol o sych – sy'n arwain at gynnydd mewn tanau glaswellt a choetir;
- Gwanwyn a haf eithriadol o wlyb – sy'n arwain at nifer anarferol o isel o danau glaswellt neu goetir;
- Cyflwyno deddfwriaeth newydd neu weithgareddau diogelwch cymunedol sy'n effeithio ar Anafiadau, Marwolaethau o ganlyniad i Danau a Galwadau Ffug.

Gosodir y targedau tymor hir drwy nodi nifer gyfartalog y digwyddiadau a fynychir dros gyfnod o bum mlynedd o 2009-10 hyd 2014-15 yna gosod targed gostyngiad yn seiliedig ar y ffigur cyfartalog hwn i'w gyflawni erbyn 2020-21.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn chwarterol a'u hadolygu a'u diwygio'n ffurfiol yn ôl y gofyn ym mis Medi 2017 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn realistig ac yn heriol.

| Dangosydd Perfformiad | Targed 2016-2017 | Targed: Cyfartaledd pum mlynedd o 2015-2016 i 2020-2021 | Gostyngiad Cyffredinol erbyn 2020/21 |
|---|---|---|---|
| **Holl Danau** FRS/RRC/S/001 (i) | Mae'r duedd ar i lawr barhaus o ran yr holl ddangosyddion o 3 i 6% bob blwyddyn yn caniatáu ar gyfer cyfnodau prysur. | 3325 | -20% |
| **Marwolaethau ac Anafiadau Oherwydd Tanau** FRS/RRC/S/002 (i) | | 62 | -10% |
| **Galwadau Tân Diangen** FRS/RRC/S/001 (ii) | | 4163 | -10% |
| **Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr Ymatebwyd Iddynt** FRS/RRC/S/001 (iii) | | 958 | -10% |
| **Prif Danau** Dangosydd Sector | | 1248 | -20% |
| **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi** Dangosydd Sector | Ein huchelgais yw sicrhau dim 'Marwolaethau oherwydd Tanau' | 479 | -15% |
| **Tanau Bwriadol** Dangosydd Sector | | 1476 | -30% |
| **Tanau mewn Eiddo Annomestig** Dangosydd Sector | | 221 | -15% |
| **Salwch** Sifftiau a gollwyd fesul Cyfwerth ag Amser Llawn | | 6.5 | -25% |

## Targedau Perfformiad Lleol ar gyfer 2016/17

Gosodir dangosyddion perfformiad lleol ar sail flynyddol.

| Dangosydd Lleol | Targedau 2016/2017 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Gwiriad Diogelwch Tân yn y Cartref | I'w gadarnhau | Yn ddibynnol ar arian grant gan Lywodraeth Cymru a bennir ym mis Mawrth 2016 |
| Diogelwch Tân Busnesau | I'w gadarnhau | Archwiliadau sy'n seiliedig ar risgiau i'w cynnal |
| Staff Cymwys | 95% | Uchafswm bwlch sgiliau critigol o 5% mewn perthynas â risgiau gweithredol ar gyfer y staff gweithredol sydd ar gael |
| Argaeledd Peiriannau Tân Ar Alwad | 100% | Mae'r holl beiriannau tân 'Ar Alwad' ar gael drwy'r amser |
| Ymarferion Gweithredol | 50 | Caiff o leiaf 50 o ymarferion gweithredol eu cynnal o fewn y sefydliad |

Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau hyn ac rydym yn hyderus y bydd ein gwelliannau a'n gweithgareddau lleihau risg gymunedol yn parhau i leihau nifer y tanau, marwolaethau, anafiadau a galwadau ffug mewn eiddo domestig ac annomestig.

Ceir mwy o wybodaeth fanwl am ein perfformiad yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol 2014 / 2015 ar ein gwefan yn www.tancgc.gov.uk.

## Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2016/17

Yn ystod 2016/17 byddwn yn darparu'r 12 amcan gwella allweddol canlynol a fydd, yn ein barn ni, yn lleihau risg ac yn gwella diogelwch ein cymunedau, ynghyd â darparu gwasanaethau ardderchog sy'n ymateb i risgiau ac anghenion ein cymunedau.

| | | |
|---|---|---|
| Darparu ymyrraeth diogelwch cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. | Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru. | Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. |
| Cynnal adolygiad trylwyr a chadarn ar sail tystiolaeth o'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau; yn cynnwys cyfansoddiad ein gorsafoedd tân; cerbydau; offer; a'r modelau staffio cysylltiedig. | Darparu Ystafell Reoli ar y Cyd ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn cyfleuster a rennir yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. | Cynnal adolygiad manwl a strategol o'r ardal a wasanaethwn gan ddadansoddi cynlluniau datblygu, meysydd twf, ystadegau'r farchnad lafur, yr economi a demograffeg. |
| Cyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). | Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes. | Buddsoddi yn ein pobl. |
| Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau. | Digido - Defnyddio technoleg i gysylltu, cydweithio, arloesi a grymuso | Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd. |

Isod ceir matrics i ddangos sut mae ein hamcanion ar gyfer 2016/17 yn cysylltu â'n Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2016-2021

| Amcanion Corfforaethol | Blaenoriaethau Strategol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cydweithio | Arloesedd | Gwella'r Gwasanaethau a Ddarperir gennym | Grymuso ein Staff | Gwella ein Hasedau a'n defnydd o Adnoddau | Cynaliadwyedd | Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| Amcan 1 | √ | √ | √ | | | | √ |
| Amcan 2 | √ | | √ | | √ | √ | |
| Amcan 3 | √ | | √ | | | | √ |
| Amcan 4 | √ | | √ | | √ | √ | √ |
| Amcan 5 | √ | √ | √ | | √ | | |
| Amcan 6 | √ | √ | √ | | | | |
| Amcan 7 | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Amcan 8 | √ | √ | √ | | √ | √ | |
| Amcan 9 | | √ | | √ | √ | √ | √ |
| Amcan 10 | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Amcan 11 | √ | √ | √ | | √ | √ | √ |
| Amcan 12 | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |

# Amcan 1 - Darparu ymyrraeth diogelwch yn y cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Ers nifer o flynyddoedd rydym wedi datblygu ein gweithgareddau i wella diogelwch tân yn y cartref. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy gynnal Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim mewn cartrefi ledled canolbarth a gorllewin Cymru gyda phwyslais arbennig ar bobl sy'n agored i niwed a phobl sy'n wynebu risg uchel. Rydym hefyd yn cynnig cyngor ar ddiogelwch yn y cartref ac ystod o wybodaeth am ddiogelwch ar ein gwefan, yn y wasg genedlaethol a lleol, drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a hefyd ym mhob un o'n Gorsafoedd Tân a swyddfeydd. Rydym yn cydweithio ag ystod eang o asiantaethau partner sydd â chysylltiadau i bobl sy'n agored i niwed. Mae hyn yn caniatáu i ni gyrraedd cartrefi na allai fod gennym fynediad iddynt na gwybodaeth amdanynt fel arall. Mae hon yn elfen bwysig iawn o'n hagenda a rennir ar gyfer cymunedau mwy diogel ac yn un yr ydym am ei hehangu hyd yn oed ymhellach.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Dengys ein data fod gostyngiad hirdymor canlyniadol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi sy'n dangos bod darparu cyngor, addysg ac offer yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl rydym yn ymgysylltu â hwy. Mae'n fraint gennym fod yn Wasanaeth cyfrifol y gellir ymddiried ynddo, sydd â hanes hir o ddarparu cyngor a chymorth proffesiynol a bwriadwn ddefnyddio'r enw da hwn a'n cysylltiadau â chartrefi sy'n agored i niwed i sicrhau'r effaith orau posibl. Yn ogystal, mae gan nifer o'n partneriaid, yn enwedig yn y sector iechyd, gyngor ac ymyriadau yr hoffent eu hyrwyddo er mwyn gwella diogelwch ac iechyd ein cymunedau. Rydym am ehangu'r cyngor a'r ymyrraeth a ddarparwn ar hyn o bryd i ddinasyddion sy'n agored i niwed er mwyn adlewyrchu ymagwedd fwy cyfannol tuag at ddiogelwch cymunedol.

Rydym am sicrhau ein bod yn cyfeirio adnoddau gwerthfawr at y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf gan ddarparu ymyriadau sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant ac yn gwella diogelwch cymunedol pawb rydym hyn ymgysylltu â hwy. Bwriad y cysyniad hwn o 'Wneud i Bob Cyswllt Gyfrif' yw gwella ffyrdd o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Bydd y datblygiad hwn ar waith erbyn 2016/17 ond bydd yn ddeinamig ac yn datblygu i adlewyrchu ein blaenoriaethau ni a'n partneriaid:

- Bydd ymyrraeth diogelwch cartref sy'n fwy arloesol a chyfannol yn cael ei chyflwyno ar draws y Gwasanaeth i ddisodli'r Gwiriad Diogelwch Tân yn y Cartref mwy traddodiadol.
- Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r gwelliant yn ein hymyrraeth gymunedol â'n staff, ein partneriaid allanol a'r cymunedau a wasanaethwn.
- Byddwn yn ehangu rôl Gwirfoddolwyr Diogelwch Cymunedol i ddarparu cymorth lleol parhaus i'r bobl hynny sydd wedi elwa ar ein hymyriadau.
- Ehangu'r hyfforddiant a ddarperir i'n hasiantaethau partner er mwyn nodi risg a chefnogi ein hymyriadau diogelwch cymunedol.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn gwerthuso ansawdd yr ymyriadau a ddarparwn i'r aelodau o'n cymunedau sy'n fwyaf agored i niwed drwy asesu lefel y risg cyn ac ar ôl ein hymyriadau.

Cydnabuwn fod yn rhaid i ni yn gyntaf fesur ansawdd a maint ein hymyriadau, oherwydd cydnabyddir y gallai'r buddiannau i'r gymuned gymryd mwy o amser i ddod i'r golwg. Byddwn yn defnyddio ein data ein hunain ar danau damweiniol mewn cartrefi ond byddwn hefyd yn defnyddio data partneriaid a data cenedlaethol i fesur effaith hirdymor ein dull gweithredu newydd.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd cymunedau yn fwy diogel ac yn iachach o ganlyniad i'n cyngor a'n hymyrraeth.

# Amcan 2 - Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn cydlynu ystod eang o ymyriadau'r Gwasanaeth i leihau'r risg o danau a gaiff eu cynnau'n fwriadol. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan y Bwrdd Tanau Bwriadol Strategol, rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub, yr Heddlu, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cafwyd llwyddiant sylweddol wrth leihau nifer y tanau bwriadol. Yn y cyfnod wyth blynedd rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015 cafwyd gostyngiad o 65% mewn tanau bwriadol ledled Cymru.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Byddwn yn parhau i gynnal y gwaith partneriaeth, y rhaglenni addysg ac ymyrraeth ardderchog a roddwyd ar waith i leihau risg, gan gydnabod bod tanau bwriadol yn effeithio ar gymdeithas, ein treftadaeth a'n hamgylchedd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi llosgi dan reolaeth, rhwystrau tân ac i hyrwyddo pori. Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n weithredol gyda grwpiau gwirfoddolwyr cymunedol i gefnogi wardeniaid llosgi bwriadol cymunedol.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Drwy gydol 2016/17:

- Byddwn yn cyflawni amcanion Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru III.
- Byddwn yn gwella'r wybodaeth sydd gennym am raddfa a chwmpas tanau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru.
- Byddwn yn lleihau'r risg o danau bwriadol mewn adeiladau.
- Byddwn yn rheoli'r risg o ganlyniad i gynnau tân yn fwriadol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Byddwn yn lleihau'r risg o danau bwriadol a throseddau casineb yn erbyn pobl ac eiddo.
- Byddwn yn ehangu ein rhwydwaith o grwpiau cymunedol sy'n hyddysg ac yn weithredol o ran lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

TCaiff targedau lleihau eu darparu gan Strategaeth Tanau Bwriadol Cymru III.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd aelodau o'r gymuned yn fwy diogel rhag risg tanau bwriadol a bydd effaith gymdeithasol ac economaidd y gweithgaredd hwn yn cael ei lleihau. Bydd mwy o gyfraniad cymunedol hefyd drwy gydweithio â gwasanaethau eraill.

# Amcan 3 - Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Rydym yn delio â chanlyniadau Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf), a'r effaith a gânt ar fywyd dynol a'n cymunedau yn ddyddiol am ein bod yn achub llawer mwy o bobl sydd wedi'u hanafu mewn GTFf na mewn tanau. Mae addysg ac ymyrraeth yn allweddol i leihau nifer y GTFf ar ein ffyrdd ac mae gan y Gwasanaeth rôl a rennir wrth gyflawni hyn ochr yn ochr â phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd eraill.

Er bod diogelwch ar y ffyrdd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn 2013, roedd cyfanswm o 8,335 o bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu o ganlyniad i GTFf – cafodd 111 o bobl eu lladd a 1,033 o bobl eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Mae Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn gosod targedau diogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020. Fel Gwasanaeth rydym yn chwarae rhan flaenllaw i geisio helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni eu targedau drwy ddarparu ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd effeithiol a thargedu'r ardaloedd cywir, yn y ffordd gywir, er mwyn lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol .

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi datblygu Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer 2015-2020 i gefnogi nodau Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Rydym wedi nodi beth allwn ei wneud i gefnogi ein partneriaid a byddwn yn cyfeirio ein hymyriadau at Feicwyr Modur, Pobl Ifanc a Gyrwyr Hŷn. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ddarparu gweithgareddau diogelwch ar y ffyrdd yr ydym mewn sefyllfa unigryw i gael effaith gadarnhaol arnynt ac ni fyddwn yn defnyddio ein hadnoddau gwerthfawr i ddyblygu agweddau ar ddiogelwch ar y ffyrdd sydd eisoes yn cael eu darparu'n llwyddiannus gan ein partneriaid.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Drwy gydol 2016/17:

- Byddwn yn darparu gweithgareddau i wella diogelwch beicwyr modur ar ein ffyrdd drwy annog pobl i gymryd rhan mewn Cyrsiau Diogelwch Beiciau Modur.
- Byddwn yn datblygu Cwrs Ymyrraeth Diogelwch ar y Ffordd Aml-asiantaeth i Bobl Ifanc a fydd yn targedu'r bobl ifanc hynny y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel oherwydd eu hymddygiad ar y ffyrdd.
- Sicrhau bod gweithgareddau addysg diogelwch ar y ffyrdd ac ymyriadau yn targedu gyrwyr hŷn.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Drwy gydol 2016/17:

Byddwn yn defnyddio data cenedlaethol ar wrthdrawiadau traffig ffyrdd ac anafiadau i fonitro canlyniadau pob ymyriad diogelwch ar y ffyrdd a byddwn yn datblygu ein hymyriadau drwy werthusiad ôl-ymyriad.

Byddwn yn defnyddio'r targedau a geir o fewn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru:

- Gostyngiad o 40% yng nghyfanswm y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.
- Gostyngiad o 25% yn nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.
- Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc (16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Ffyrdd mwy diogel yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

# Amcan 4 - Cynnal adolygiad trylwyr a chadarn ar sail tystiolaeth o'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau; yn cynnwys cyfansoddiad ein gorsafoedd tân; cerbydau; offer; a'r modelau staffio cysylltiedig.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae cyfansoddiad ein hasedau a'r defnydd ohonynt wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd ac mae'n bennaf gysylltiedig â ffactorau risg hanesyddol. Mae angen i ni sefydlu p'un a yw ein hasedau a'n hadnoddau wedi'u cyfateb i'r risgiau pennaf yn ein cymunedau.

Gwnaed y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad risg yn 2015 a sefydlwyd tîm prosiect. Mae'r adnoddau angenrheidiol wedi'u sicrhau er mwyn cwblhau'r gwaith pwysig hwn.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Mae angen i ni ddeall yn llawn y risgiau mae ein cymunedau yn eu hwynebu a sicrhau ein bod yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio ein gwasanaethau er mwyn lleihau'r risg honno gymaint â phosibl. Bydd cynnal adolygiad o'n holl risgiau yn ein galluogi i nodi'n glir sut y gallwn sicrhau ein bod yn cyfateb ein hadnoddau i'r risg bennaf yn ein cymunedau yn y ffordd orau posibl.

Drwy gynnal adolygiad cadarn o risgiau ar sail tystiolaeth byddwn yn gallu nodi'n gywir beth yw'r prif risgiau a pha adnoddau y gallwn eu defnyddio ar hyn o bryd i leihau'r risgiau hyn. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein hasedau yn y lleoliadau priodol a'u bod ar gael pan fydd eu hangen ar ein cymunedau.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Byddwn yn defnyddio dadansoddiad manwl o'r data a'r wybodaeth o'n Hasesiad Strategol (hefyd yn amcan ar gyfer eleni, amcan 5) a data ar ddigwyddiadau ynghyd â modelu cyfrifiadurol i ddarparu proffil risg clir i ni o'n hardal Gwasanaeth.

Caiff yr Adolygiad Risg ei gwblhau yn 2016/17 er mwyn llunio a llywio ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer 2017/18.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein perfformiad yn unol â Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu rhannu gyda'n rhanddeiliaid lle bynnag y bo'n bosibl.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Drwy nodi'n gywir y risgiau mae ein cymunedau yn eu hwynebu a chyfateb ein hadnoddau i'r risgiau hynny byddwn yn gallu sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddarparu gwerth ardderchog am arian ar gyfer y cymunedau a wasanaethwn.

# Amcan 5 - Darparu Ystafell Reoli ar y Cyd ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn cyfleuster a rennir yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Sefydlwyd y Prosiect Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2014 ac mae'n uno'r timau Rheoli Tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan adleoli'r tîm newydd i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhencadlys Heddlu De Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ystafell reoli ar y cyd yn gwbl weithredol yn ystod 2016/17 .

Yn ystod 2014/15 sicrhawyd £3m o gyllid gan Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd saith Maes Tasg Allweddol i gynllunio'r newidiadau gofynnol gydag arbenigwyr o bob partner gan gynnwys:

1. Ailddatblygu adeilad y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfleusterau ar gyfer timau rheoli tân a thimau rheoli'r heddlu.
2. Newid y trefniadau criwio presennol i system a arweinir gan alw a fydd yn sicrhau bod mwy o staff Rheoli Tân ar gael yn ystod cyfnodau prysur a bod llai o staff yn ofynnol pan fydd galwadau brys yn lleihau.
3. Caffael system Gorchymyn a Rheoli Tân ar y cyd newydd.
4. Integreiddio systemau a seilwaith TGCh ategol.
5. Paratoi cynlluniau dilyniant busnes yn ystod y cyfnod pontio a gweithredu.
6. Adolygu prosesau, gweithdrefnau a phrotocolau gweithredol.
7. Paratoi cynlluniau gweithredu a phontio.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Bydd y prosiect yn rhoi sylfaen i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i bartneriaid ar gyfer datblygu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd drwy ddarparu cyfleuster ateb galwadau brys o'r 21ain ganrif; y cyfle i wella prosesau a phrotocolau ar y cyd; rhannu gwybodaeth briodol ar gyfer digwyddiadau sy'n dod i'r golwg a digwyddiadau a rhag-gynlluniwyd. Mae trefniadau gweithio effeithiol eisoes yn bodoli rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'r gwasanaethau golau glas ar gyfer prif ddigwyddiadau difrifol neu gynlluniedig ynghyd â'r prosiect hwn yn rhoi'r cyfle i integreiddio hyn â digwyddiadau mwy cyffredin. Bydd y prosiect yn darparu buddiannau i'r cyhoedd drwy sicrhau'r ymateb aml-asiantaeth gorau posibl i ddigwyddiadau ac yn cyflawni £1m o arbedion a rennir yn gyfartal rhwng Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. £750k o arbedion o ganlyniad i ostyngiad mewn costau refeniw yn sgil uno'r ddau dîm rheoli tân a'r £250k sy'n weddill o arbedion mewn costau eiddo a newidiadau i gontractau TGCh

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Yn ystod 2015/16 byddwn yn gweld proses weithredu a phontio'r prosiect. Bydd y saith rheolwr prosiect Maes Tasg Allweddol yn gweithredu'r cynlluniau a ddatblygwyd yn 2014/15, gan gwblhau'r gwaith adeiladu; yn gweithredu'r system griwio a arweinir gan alw ac yn penodi staff i rolau yn y strwythur newydd; yn gosod, profi ac yn gweithredu'r systemau newydd, y system a rennir neu'r rhai integredig; yn hyfforddi staff Rheoli Tân ar y systemau newydd; ac yn gweithredu prosesau, gweithdrefnau a phrotocolau newydd. Y bwriad yw gweld y prosiect yn gwbl weithredol erbyn 2016/17. Byddwn yn adleoli tîm Rheoli Tân unedig newydd Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru i Ben-y-bont ar Ogwr. Byddwn yn dechrau cau'r ystafelloedd rheoli tân presennol unwaith y bydd yr holl systemau TGCh wedi'u sefydlogi ac wedi bod yn weithredol ers 6 mis.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn mesur ac yn monitro pob un o'r manteision busnes a nodwyd yn ystod cyfnod gosod a chynllunio'r prosiect sy'n ymwneud â gwell canlyniadau gwasanaethau cyhoeddus; £1m o arbedion effeithlonrwydd; gwell proses o rannu gwybodaeth; a gwelliannau o ran gwaith a pherfformiad gweithredol

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Ymhlith manteision y prosiect hwn fydd darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd a 50% o gyfran o'r arbedion ariannol o £1m y flwyddyn. Ceir manylion am gynnydd y Prosiect Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn www.nicwalesfire.org.uk

# Amcan 6 - Cynnal asesiad manwl a strategol o'r ardal a wasanaethwn gan ddadansoddi cynlluniau datblygu, meysydd twf, ystadegau'r farchnad lafur, yr economi a demograffeg.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar yr ardal a wasanaethwn. Mae llawer o'r ffactorau hyn megis poblogaeth, demograffeg a mannau gwaith yn newid yn gyson, ac maent hefyd yn amrywio'n sylweddol o'r ardaloedd mwy trefol yn y De i'r ardaloedd gwledig anghysbell mewn rhannau o Ogledd a Gorllewin Cymru. Mae penderfyniadau o ran twf, datblygiad a buddsoddiad ar draws y chwe sir yn effeithio ar y broses o ddarparu ein gwasanaethau. Mae darparu tai newydd a'u lleoliad, cyfleoedd cyflogaeth, rhwydweithiau ffyrdd a llawer o agweddau eraill yn dylanwadu ar ein fframwaith ar gyfer darparu gwerth gorau i'n cwsmeriaid. Mae'n holl bwysig felly bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, wrth ragweld galwadau a disgwyliadau ar ein gwasanaethau yn y dyfodol, yn rhoi ystyriaeth ddyledus i bob un o'r materion dylanwadol hyn ar draws y chwe awdurdod cyfansoddol a wasanaethir.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Byddwn yn cael gafael ar ddata a gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau dibynadwy i roi asesiad clir i ni o'n hardal Gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi data o Gyfrifiad 2011 i'n helpu i ddeall yn well y bobl rydym yn eu gwasanaethu; astudio Cynlluniau Datblygu Lleol; a Chynllun Gofodol Cymru i nodi'r meysydd datblygu a thwf ledled canolbarth a gorllewin Cymru. Byddwn yn astudio data twristiaeth ac ystadegau'r farchnad lafur i gyfrifo amrywiadau a symudiadau pobl ar draws y rhanbarth ar adegau penodol o'r dydd a'r flwyddyn. Mae angen i ni ddeall yn llawn yr ardal a wasanaethwn, gan gydnabod y gwahaniaethau ar draws yr ardal 12000 cilomedr sgwâr helaeth y darparwn wasanaethau ar ei chyfer, gan sicrhau bod y wybodaeth ar gyfer ein hadolygiad risg yn berthnasol, yn gyfredol ac yn gywir.

Bydd hyn yn golygu bod ein hadolygiad risg (hefyd yn amcan ar gyfer 2016/17, gweler amcan rhif 4) yn cynnwys y wybodaeth briodol sydd ei hangen arnom er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n rhoi'r gwerth gorau posibl i'n cymunedau.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Amcan ar sail ymchwil yw'r amcan hwn er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir i allu gwasanaethu ein hardal. Bydd y data a'r wybodaeth ymchwil yn caniatáu i ni fewnosod gwybodaeth gywir a chyfredol i'n hadolygiad risg er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau yn darparu'r gwerth gorau am arian ar gyfer y dinasyddion a'r ardal. Byddwn yn cwblhau'r Asesiad Strategol yn ystod 2016/17 a fydd yn bwydo gofynion yr adolygiad risg (amcan 4).

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Bydd asesiad strategol llwyddiannus yn galluogi adolygiad risg cywir ac yn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ardal y byddwn yn ei gwasanaethu dros y blynyddoedd i ddod. Yn dilyn hyn byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein perfformiad yn unol â Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi??

Bydd gan ein cwsmeriaid well dealltwriaeth o'r risgiau a wynebwn yn awr ac yn y blynyddoedd i ddod. Caiff ein cymunedau eu sicrhau hefyd ein bod yn darparu'r gwerth gorau gan fod ein hadnoddau yn gymesur i'r risgiau ar draws ein hardal.

# Amcan 7 - Cyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

O Ebrill 2016 ymlaen bydd yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gynnal proses datblygu cynaliadwy a gweithio tuag at y nodau a bennir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). O fewn y Ddeddf, mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae'n ofynnol i ni gyfrannu at wella llesiant canolbarth a gorllewin Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy).

Rydym eisoes yn gwneud ymdrech gadarn i sicrhau bod yr hyn a wnawn yn gynaliadwy ac o fudd i'n cymunedau; fodd bynnag, mae bellach yn ofynnol i ni fod yn rhan o ddarlun mwy.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn cyfrannu at y nodau llesiant a nodir o fewn y Ddeddf, sydd fel a ganlyn:-

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae'n ofynnol i ni gyfrannu at wella llesiant canolbarth a gorllewin Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy).

Datblygwyd y ddeddfwriaeth hon â'r bwriad o wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru a byddwn yn cefnogi hyn.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

- Byddwn yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn cyfrannu yn y ffordd orau posibl at gyflawni'r nodau llesiant.
- Byddwn hefyd yn cyhoeddi datganiad yn egluro sut y bydd yr amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.
- Yn ystod 2016/17 byddwn yn nodi'r cyfnod o amser y disgwyliwn gyflawni'r amcanion o'i mewn a gwneir hyn naill ai ar lefel sefydliadol neu ar y cyd â phartneriaid ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol ar gyfer y nodau llesiant a osodir gan Weinidogion Cymru.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Gwell dyfodol i Gymru.

# Amcan 8 - Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes.

## Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Yn draddodiadol, mae ein Gweithgareddau Diogelwch Tân i Fusnesau wedi canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith deddfwriaethol a gyflwynwyd gan yr offerynnau statudol amrywiol. Darparwyd hyn drwy raglen archwilio ac arolygu ar sail risg lle yr ymwelir ag eiddo busnes yn ôl lefel asesedig y risg y maent yn ei pheri i fywyd.

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghori a chyngor i bartneriaid statudol yn adrannau Trwyddedu a Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol ac yn gweithio ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Arolygwyr y Goron a Chyfoeth Naturiol Cymru.

O ran Caffael fe'n hanogir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yn manteisio i'r eithaf ar ein contractau drwy'r siarter Agor Drysau a Pholisi Caffael Cyhoeddus Cymru. Mae posibilrwydd y gallai rhai canllawiau arfer gorau ddod yn statudol.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Hoffem roi ffocws cliriach ar sicrhau bod busnesau yn gallu datblygu ac aros yn weithredol a dod o hyd i ffyrdd o leihau'r baich rheoliadol a osodir ar fusnesau.

Gwyddom nad yw llawer o fusnesau bach a chanolig eu maint yn goroesi tân ac yn dechrau masnachu eto, ond bydd ein gweithgareddau diogelu yn sicrhau bod y cyngor a roddir o'r safon uchaf, bod ein gweithgarwch gorfodi yn gymesur i'r risg a gyflwynir gan y busnes a'n bod yn cymryd cyn lleied o amser â phosibl i gynnal ein rhyngweithiadau â'r busnes. Drwy ein gweithgareddau caffael gallwn addysgu ac ymgysylltu â busnesau bach a chanolig eu maint, a llunio tendrau yn y fath fodd fel bod mwy o fynediad o bosibl i dendrau a gwaith.

Drwy ein rhaglen archwilio diogelwch tân busnesau bwriadwn gefnogi, datblygu ac arwain y gymuned fusnes er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd. Rydym am annog cynaliadwyedd economaidd a chymunedau cydlynus yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

- Byddwn yn ehangu ein rhaglen archwilio diogelwch tân i fusnesau i gynnwys y broses o ddarparu cymorth ac arweiniad i fusnesau.
- Byddwn yn diwygio'r ffordd rydym yn darparu ein gweithgareddau cydymffurfio rheolaidd i fusnesau drwy weithredu'r broses archwilio fer.
- Byddwn yn ceisio cynyddu ein cyfranogiad at Gynlluniau Awdurdodau Sylfaenol i leihau baich rheoliadol a chynyddu cysondeb.
- Byddwn yn cynyddu'r pwyslais ar draws y sefydliad ar yr angen i ystyried effeithiau caffael cyn gynted â phosibl yn unol â'r amcanion strategol hyn.

Byddwn yn datblygu ac yn darparu'r mentrau hyn yn ddeinamig yn ystod 2016/17.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

- Adborth gan gwsmeriaid a gwerthusiad.
- Nifer y tanau mewn amgylchedd adeiledig a phroses atal colled ddilynol.
- Canran y busnes a osodir gyda Mentrau Bach a Chanolig eu Maint.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd busnesau yn fwy cydnerth a chynaliadwy a bydd ganddynt lefelau cynyddol o gydsyniad deddfwriaethol o fewn baich rheoliadol gostyngedig. Bydd y cyngor a roddir i fusnesau yn fwy cyson ar draws ardaloedd daearyddol a bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth drwy addysg.

Bydd defnyddwyr a chyflogeion adeiladau yn fwy diogel drwy fesurau a ymgorfforir ac a gynhelir gan ein camau ymgynghorol a rheoliadol. Bydd busnesau bach a chanolig eu maint yn deall anghenion y sefydliad a byddwn mewn sefyllfa well i dendro.

Hyrwyddir cynaliadwyedd economaidd o ganlyniad.

# Amcan 9 - Buddsoddi yn ein pobl.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Yn 2015 enillodd y Gwasanaeth wobr Buddsoddwyr mewn Pobl Aur a'i nod yw cynnal y lefel hon o achrediad. Mae gennym fframweithiau ar waith i sicrhau bod y broses o gaffael, defnyddio a chynnal sgiliau a chymwyseddau yn cael ei mesur yn gywir. Rydym yn falch bod ein personél yn cyflawni cymwysterau sy'n gyson â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar draws safonau proffesiynol. Ar ddechrau 2015 gwnaethom gynnal Archwiliad Diwylliannol a roddodd adborth hanfodol gan ein cyflogeion ynghylch proses yr Adolygiad Datblygu Unigol a sut mae hyn yn cefnogi anghenion datblygu unigol a sefydliadol. Rydym wedi croesawu'r dull E-ddysgu newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ategu unrhyw anghenion dysgu a datblygu a nodwyd.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

- Ystyried deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth sy'n dod i'r golwg sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010 – dyletswyddau penodol i Gymru;
- Sicrhau bod gan ein holl Staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl;
- Rhoi'r offer a'r cyfleoedd datblygu gorau posibl i'n staff i sicrhau diogelwch ein cyflogeion a'r cymunedau a wasanaethant;
- Cynnal a gwella ein llwyddiant Buddsoddwyr mewn Pobl i sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cydnabod yr ymrwymiad a wnawn i bobl a datblygiad sefydliadol;
- Adolygu ein Llwybrau Datblygu Sefydliadol i sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu effeithiol ac effeithlon.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

- Ymgorffori diwylliant dysgu a fydd yn diwallu anghenion presennol ein Gwasanaeth a'n hanghenion yn y dyfodol fel rhan o'r broses o loywi ein Llwybrau Strategol a mireinio ein proses Adolygu Datblygiad Unigol yn ystod 2016/17.
- Archwilio pob cyfle i ddysgu o'n partneriaid a'n rhanddeiliaid a chydweithio â hwy (yn ystod 2016/17).
- Sicrhau bod ein swyddogaeth ymchwil a datblygu yn edrych y tu hwnt i Sector Tân y DU ar gyfer atebion arloesol yn y dyfodol; proses barhaus dros y 5 mlynedd nesaf.
- Sicrhau bod sgiliau a chymwyseddau Critigol i Risg yn adlewyrchu'n gywir broffiliau risg ein Cymunedau fel rhan o Amcan 4 a 6 yn 2016/17.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

- Archwilio'r Matrics Sgiliau Critigol i Risg a'r broses Adolygu Datblygiad Unigol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yn cynnwys cysylltiadau â'r llwybrau sefydliadol;
- Defnyddio'r Fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl i werthuso effaith hyfforddiant o fewn y sefydliad;
- Defnyddio proses werthuso i ddangos sut y gwnaethom ddefnyddio arloesedd i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer ein Cymunedau;
- Defnyddio gwybodaeth fusnes i lywio gwelliannau o ran Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

- Gwell boddhad swydd a morâl ymhlith cyflogeion;
- Gweithwyr mwy brwdfrydig a fydd yn ei dro yn gwella cynhyrchiant;
- Cyflogeion sy'n gwybod eu bod yn gymwys ac felly'n teimlo'n fwy hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lleihad mewn trosiant cyffredinol cyflogeion a llai o absenoldebau;
- Cyflogeion y mae angen llai o oruchwyliaeth arnynt a chyfarwyddiadau llai manwl;
- Cyflogeion sydd mewn gwell sefyllfa i addasu i newidiadau a heriau;
- Delwedd well i'r Gwasanaeth wrth i gyflogeion deimlo bod hwn yn lle da i weithio.

# Amcan 10 - Gwneud y Defnydd Gorau o'n Hasedau a'n Hadnoddau.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Rydym wedi cynnal nifer o ymarferion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd, gan arwain at arbedion sylweddol a gweithrediadau effeithlon. Fodd bynnag nid yw'r ymarferion hyn wedi ymestyn i edrych tuag allan ar gymariaethau cost manwl y pen gan sefydliadau eraill, nac wedi archwilio arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol ar bob maes gwaith.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad busnes yn dryloyw, yn gadarn ac yn gyson, yn unol â chyfyngiadau'r amgylchedd economaidd presennol, mae angen i ni ddeall ein Gwasanaeth yn llawn o ran costau. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn nodi'r broses fwyaf priodol o ddyrannu adnoddau er mwyn darparu'r lefel a'r ystod ddymunol o wasanaethau am y gost isaf posibl.

Sicrhau'r effeithlonrwydd a'r cynaliadwyedd gorau posibl yn ystod y cyfnod hwn o gyni.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Byddwn yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o'n gwariant, gan gymharu ag eraill, a sefydlu model blaengynllunio ar gyfer asedau ac adnoddau

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o fewn y flwyddyn 2016/17 er mwyn llunio a llywio ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer 2017/18.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn monitro cynnydd gyda chyfraniad llawn Aelodau ac yn adrodd ar welliannau mewn perthynas â chostau cymharol neu werth am arian.

Cynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Rheoli Asedau cynaliadwy.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd hyn yn gofyn am arbenigedd o fewn meysydd gwaith amrywiol ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr adrannau perthnasol, fodd bynnag byddwn yn monitro hyn ac yn dyrannu adnoddau yn unol â hynny. Bydd y gwaith fodd bynnag yn arwain at ddealltwriaeth lawn o'r gwasanaeth a ddarparwn, yr hyn rydym am ei ddarparu ac am ba gost, ac arwain at wneud y penderfyniadau gorau posibl ynghylch adnoddau er mwyn creu Gwasanaeth Tân ac Achub cynaliadwy wrth symud ymlaen.

# Amcan 11 - Digido - Defnyddio technoleg i gysylltu, cydweithio, arloesi a grymuso.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae gennym hanes o ddefnyddio dulliau TG ar y cyd i arbed arian megis defnyddio system gyllid a chaffael ar y cyd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ac yn fwy diweddar datblygu system adnoddau dynol a'r gyflogres ar y cyd yng Ngwasanaeth Tân De Cymru.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Cydnabuwn fod posibilrwydd pellach i fabwysiadu technolegau gwybodaeth i ategu ein gweithgareddau. Bydd ein timau Gweithredu, Datblygu Busnes a TG yn ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio a darparu ein gwasanaethau o fewn y Gwasanaeth ac i gwsmeriaid allanol. Byddwn yn ceisio gwella ac addasu'r broses o ddarparu ein gwasanaethau drwy groesawu'r dirwedd dechnolegol sy'n newid yn barhaus.

Bydd y defnydd estynedig o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu datblygedig yn gwella ein prosesau busnes ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd busnes y bydd personél y gwasanaeth tân a rhanddeiliaid yn gallu manteisio arnynt fel ei gilydd

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

- Yn 2016/17 byddwn yn mabwysiadu rhwydwaith band eang wedi'i ddiweddaru'r sector cyhoeddus a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw dechnolegau 'gwerth ychwanegol' sy'n briodol.
- Rhoi sylw i ofynion technoleg leol prosiect y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd.
- Yn 2016/17 byddwn yn datblygu gwefan ein Gwasanaeth er mwyn gwella mynediad y cyhoedd i'r sefydliad.
- Yn 2016/17 byddwn yn comisiynu ail gam y prosiect a rennir ar gyfer adnoddau dynol a'r gyflogres.
- Yn 2019/20 byddwn yn cyflwyno Prosiect Cysylltiadau Symudol Gwasanaethau Brys Llywodraeth y DU
- Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i strategaeth 'Cloud First' Llywodraeth y DU wrth adolygu systemau TGCh newydd

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

- Mynediad o bell cynyddol i systemau TG gweinyddol a gweithredol.
- Cynnydd o ran dibynadwyedd systemau TG a llai o gyfnodau anweithredol.
- Mwy o ddefnydd o Wefan y Gwasanaeth.
- Lleihad mewn prosesau busnes â llaw neu ar bapur.
- Mwy o ddiogelwch ar gyfer asedau gwybodaeth y gwasanaeth tân.
- Lleihad mewn gwariant TGCh 'tebyg wrth debyg'.
- Gwelliant mewn ymatebion o ran defnyddio diffoddwyr tân rhan amser.
- Galluoedd data gwell ar gyfer criwiau gweithredol.
- Gwell cydweithrediad gweithredol.
- Lleihad yn y defnydd o ynni sy'n ymwneud â TGCh.
- Systemau TGCh mwy cynaliadwy.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd cwblhau'r themâu a nodwyd yn llwyddiannus yn arwain at sicrhau arbedion gweithredol i'r sefydliad yn y pen draw ynghyd â darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, bydd y manteision a ddarperir o ran prosesau busnes yn sicrhau gwell amgylchedd gwaith ar gyfer staff gweithredol a staff cymorth fel ei gilydd.

# Amcan 12 - Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Er ein bod bob amser wedi ymateb yn gadarnhaol i'r amgylchedd newidiol yr ydym yn gweithredu o'i fewn ac wedi addasu er mwyn ymateb i heriau newydd wrth iddynt godi, mae dulliau arloesol newydd a datblygiadau technolegol dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu ein bod wedi gallu sicrhau gwelliant sylweddol yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Rydym eisoes wedi mabwysiadu'r athroniaeth hon, drwy gyflwyno offer torri 'e-draulic', sydd wedi gwella diogelwch gweithredwyr a'u gallu i ymateb i lithiadau, ac mae'n bosibl y bydd y system ddiffodd 'Cold Cut' sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd hefyd yn cynnig yr un manteision o fewn y maes diffodd tân strwythurol .

Fodd bynnag, rydym am archwilio opsiynau pellach. Er enghraifft, gwyddom ein bod yn dibynnu'n helaeth ar ddŵr glân ar gyfer offer diffodd. Caiff pympiau pwysedd isel, cyfaint mawr eu gosod ar y rhan fwyaf o'n cyfarpar rheng flaen, er gwaethaf y ffaith bod dealltwriaeth glir mai pwysedd uchel a chyfaint isel yw'r system fwyaf effeithiol ar gyfer gweithrediadau diffodd tân mewnol.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Rydym am nodi ymhellach lle y gall newidiadau yng nghynllun offer, technegau gweithredu ac arloesedd newydd wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd gan helpu i sicrhau gwerth am arian.

Lleihau effaith ein gweithrediadau diffodd tân ac achub ar yr amgylchedd drwy ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithlon.

Sicrhau ein bod yn rhoi hyfforddiant, offer, technegau a phrosesau i'n diffoddwyr tân sy'n eu galluogi i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Yn ystod 2016/17:

- Byddwn yn monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd ein technegau, prosesau ac offer.
- Byddwn yn archwilio pob cyfle i ddysgu o'n partneriaid a chydweithio â hwy.
- Byddwn yn ymwneud â gwaith ymchwil a datblygu sy'n edrych ar draws a thu hwnt i sector Tân y DU am syniadau ac atebion.
- Byddwn yn ymchwilio i ddatblygiadau newydd mewn technoleg a phrosesau ac yn cynnal asesiadau a threialon yn unol â hynny.

## Sut fyddwn yn mesur llwyddiant?

- Drwy fonitro a chyflwyno canlyniadau adolygiadau, ymchwiliadau ac adroddiadau.
- Drwy gasglu data rheoli perfformiad.
- Drwy gasglu tystiolaeth am ganlyniadau gwell mewn digwyddiadau ac ymarferion gweithredol a nodir drwy'r system ddysgu weithredol.
- Monitro ac adrodd ar ein perfformiad yn unol â Rhaglen Gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd defnyddio technoleg a dulliau arloesol newydd yn golygu y gallwn gyflwyno newidiadau a gwelliannau i helpu i wella diogelwch ein diffoddwyr tân; gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau digwyddiadau gweithredol; lleihau effaith ein busnes a'n gweithrediadau brys ar yr amgylchedd; ac ymestyn ac ehangu'r amgylchedd dysgu ar gyfer ein staff. Ceir posibilrwydd hefyd o leihau costau sy'n gysylltiedig â'r meysydd gwaith hyn.

# Geirfa

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi diffiniadau o dermau a geir yn y ddogfen hon.

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Yn cynnwys tanau lle nad oedd yr achos yn hysbys neu ei fod yn amhenodol mewn cartrefi.

## Rheoli Asedau

Bydd System Rheoli ac Olrhain Asedau yn rhoi mwy o reolaeth o'r broses o gynnal yr holl offer ac yn gwella gwybodaeth am asedau, gan ategu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a galluogi dulliau adolygu a phrynu gwell ar sail gwybodaeth yn y dyfodol, gan leihau beichiau cadw cofnodion â llaw ar yr un pryd.

## Larwm Tân Awtomatig

Larwm sy'n cael ei achosi gan offer canfod tân awtomataidd.

## Archwiliad Diogelwch Tân i Fusnesau

Mae staff Diogelwch Tân o'r Gwasanaeth yn ymweld â safleoedd masnachol i roi cyngor ar ddiogelwch tân.

## Staff Cymwys

Canran y staff sy'n gymwys i gyflawni eu dyletswyddau.

## Dyddiau a Gollwyd oherwydd Salwch

Nifer y dyddiau gwaith mae gweithiwr wedi eu colli oherwydd salwch.

## Tanau Bwriadol

Yn cynnwys tanau lle mae amheuaeth eu bod wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

## Gwerthuso

Mae gwerthuso'n golygu barnu gwerth rhywun neu rywbeth, a defnyddio'r canlyniad hwn fel sail i gynllunio yn y dyfodol.

## Marwolaeth o ganlyniad i Dân

Bydd person y caiff ei farwolaeth ei briodoli i dân yn cael ei gyfrif fel marwolaeth o ganlyniad i dân hyd yn oed os bu'r unigolyn farw wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach.

## Gwiriad Diogelwch Tân yn y Cartref

Mae staff Diogelwch Tân o'r Gwasanaeth yn ymweld â chartrefi i roi cyngor ar ddiogelwch tân yn y cartref ac yn darparu dyfeisiau canfod tân.

## Argaeledd Dyfais ar Alwad

Canran yr amser y mae dyfais ar gael i gyflawni ei rôl..

## Ymarferion Gweithredol

Ymarfer hyfforddi sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth.

## Prif Danau

Mae'r rhain yn danau adroddadwy sy'n cynnwys adeiladau, carafanau, cerbydau, storfeydd awyr agored, peiriannau, adeiladau amaethyddol neu unrhyw strwythurau awyr agored e.e. twneli, pontydd, ac ati.

## Busnesau Bach a Chanolig eu Maint (BBaCH)

Busnes bach neu  ganolig ei faint, neu BBaCh, yn ôl Diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd yw busnes neu gwmni sydd â llai na 250 o gyflogeion; ac sydd naill ai (a) â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na  thua £40 miliwn neu (b) cyfanswm mantolen flynyddol nad yw'n fwy na thua £34 miliw.

## Cyfryngau Cymdeithasol

Fe'ch anogwn i gadw llygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf

Cynllun Gwella Blynyddol

2016 / 2017